# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi pwyslais ar les y disgyblion mewn amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn dod i'r ysgol ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Mae natur ofalgar y staff yn creu hafan ddiogel i'r disgyblion ac maent yn gwybod y gallant droi at unrhyw un os ydynt yn teimlo'n bryderus. Mae gan y disgyblion barch mawr tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae hi wedi sefydlu ethos cynhyrchiol a thîm agos o staff ymroddedig. Mae'n arweinydd effeithiol sy'n uchel ei pharch gan yr holl randdeiliaid. Mae gan yr ysgol systemau gwella ysgol trylwyr sy'n datblygu'r ysgol ymhellach ac mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol niferus yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno ystod o dasgau sy'n datblygu medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg, rhifedd a digidol y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws meysydd dysgu. Er hyn, nid yw medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu cystal.

Mae'r staff yn creu amgylchedd ysgogol a deniadol tu fewn a thu allan i'r dosbarth i sbarduno diddordeb y disgyblion yn eu gwaith. Maent yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion i gyfrannu tuag at beth yr hoffent ei ddysgu ac, yn fwy diweddar, cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wella eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mae disgwyliadau athrawon o beth gall ddisgyblion ei gyflawni yn eu gwaith yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol iawn. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o hanes a diwylliant eu milltir sgwâr, y gymuned ehangach a Chymru.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau disgwyliadau uchel yn gyson gan staff i gefnogi pob disgybl i gyflawni hyd orau eu gallu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025